WELSH WOUND NETWORK
RHWYDWAITH CLWYF CYMRU

Cyfarfod Agored Rhwydwaith Clwyf Cymru Medi 15 2010

Bydd cyfarfod nesaf Rhwydwaith Clwyf Cymru yn cael ei gynnal yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod ar 15 Medi 2010.

Os hoffech fynychu'r cyfarfod hwn, cofiwch gysylltu â ni ar info@welshwoundnetwork.org i archebu lle. Mae gennym ni leoedd ar gael i unrhyw un sy'n dymuno rhoi cyflwyniad ar eu gweithgareddau gwella clwyfau (academaidd, clinigol neu fasnachol) am uchafswm o bum munud. Anfonwch e-bost at info@welshwoundnetwork.org os oes gennych ddiddordeb.

Gwella clwyfau: arloesi a llwyddo.

10.00 – 10.30	Cofrestru a phaned
10.30	Cyflwyniad (Cadeirydd Michael Clark)
10.40	Cyfle i gyfarfod y cynrychiolwyr (3 cyflwyniad sleid, 5 munud)
11.30	Paned
12.00	Y ffeithiau – gwybodaeth newydd gan Rwydwaith Clwyf Cymru
12.10	Cyfraniad partneriaid masnachol at ymchwil ar hyfywedd meinwe - Jeanette Muldoon (Activa Healthcare)
12.40	Cinio
13.15	Teitl i'w gadarnhau (Gavin Hughes, Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol)
14.00	Heriau o ran arloesi mewn gwella clwyfau – Paul Murphy (Eykona Ltd)
14:40	Effeithiau byw gyda briwiau pwyso – Trudie Young
15.05	Crynodeb a chloi
15:15	Paned a gadael

CYSYLLTWCH Â RHWYDWAITH CLWYF CYMRU
Rhwydwaith Clwyf Cymru, 237 Capella House, Caerdydd CF10 4RE – info@welshwoundnetwork.org
RHEOLWR RHWYDWAITH – Dr Michael Clark, Michael.Clark21@btopenworld.com

WELSH WOUND NETWORK
RHWYDWAITH CLWYF CYMRU

Gorchudd matras arloesol i atal briwiau gorwedd

Dyma ddatganiad a gyhoeddwyd i hyrwyddo system Synidor a gafodd ei arddangos gyntaf yn nigwyddiad Rhwydwaith Clwyf Cymru ym mis Mehefin 2010.

Bydd gorchudd matras 'deallus' sy'n atal cleifion rhag datblygu briwiau pwyso neu friwiau gorwedd - sy'n costio mwy na £1 biliwn y flwyddyn i'r GIG ar hyn o bryd - yn cael ei lansio yng Nghymru yr wythnos hon.

Mae briwiau gorwedd yn datblygu ar rannau o'r croen sydd o dan bwysau pan fo rhywun yn cael trafferth symud, yn gaeth i'r gwely, yn anymwybodol, yn methu teimlo poen neu'n methu symud o gwmpas.

Y ffordd orau i'w hatal yw symud o gwmpas neu newid safle, er mwyn lleihau'r pwysau ar rannau bregus o'r corff.

Mae system Synidor, a ddatblygwyd gan yr entrepreneur Frank Edwards gyda chymorth nifer o brifysgolion Cymru a chefnogaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn gallu synhwyro pan nad yw cleifion yn symud digon ac yn rhybuddio'r staff nyrsio.

Mae'n cynnwys gorchudd matras taflu i ffwrdd a synhwyrydd unigryw sydd wedi'i gysylltu ag uned larwm gweledol a sain sy'n rhybuddio staff meddygol nad yw'r claf yn symud yn rheolaidd.

Gellir rhagosod y larwm a'i raglennu i atgoffa cleifion bod angen iddynt symud yn rheolaidd neu fod angen i'r gofalwr eu helpu os nad ydynt yn gallu symud.

Mae'r broses o ddatblygu'r system, a gafodd ei dreialu yn gychwynnol gan Ymddiriedolaeth GIG Sunderland, wedi bod yn mynd rhagddi ers sawl blwyddyn. Cafwyd cymorth gan Lywodraeth y Cynulliad drwy gyfrwng Rhwydwaith Arloeswyr Cymru ar gyfer y camau dichonolrwydd cynnar hyd at y broses weithgynhyrchu.

Bu Frank yn cydweithio'n agos â Michael Clark, Rheolwr Rhwydwaith Clwyf Cymru ac arbenigwr yn y maes hwn, gan fanteisio hefyd ar arbenigedd y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil i Ddylunio a Datblygu Cynnyrch (PDR) i ddatblygu'r casyn (casing) ar gyfer y larwm a chymorth gan Brifysgol Morgannwg i ddylunio'r bwrdd cylched electronig.

Dywedodd Lesley Griffiths, y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau, ei fod yn enghraifft wych o sut y gall busnesau elwa ar gydweithio â chanolfannau ymchwil prifysgolion.

"Rwy'n falch iawn bod Llywodraeth y Cynulliad wedi gallu cefnogi datblygiad y system hynod arloesol hon, ac rwy'n falch hefyd o weld sut y mae busnesau yn manteisio ar yr arbenigedd o fewn ein prifysgolion i ddatblygu cynhyrchion sydd â photensial masnachol enfawr. Mae'r math hwn o gydweithio hefyd yn helpu i gyflymu'r broses o roi'r cynhyrchion hyn ar y farchnad."

Dywedodd Mr Edwards fod ei gwmni wedi'i leoli yn y Sefydliad Gwyddor Bywyd ym Mhrifysgol Abertawe lle bydd yn gallu manteisio ar gyfleusterau ac arbenigedd o'r radd flaenaf i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o ddyfeisiau, gan gynnwys system ar gyfer cadeiriau a chadeiriau olwyn.

Dywedodd Dr Clark fod y rhwydwaith o gymorth a gynigir drwy Rwydwaith Clwyf Cymru, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth y Cynulliad, wedi bod yn hanfodol er mwyn rhoi'r cynnyrch ar y farchnad.

Dywedodd fod 4% o wariant y GIG yn cael ei wario ar drin briwiau pwyso a bod 20% o gleifion mewn ysbytai yn dioddef ohonynt.

"Methu â symud o gwmpas am gyfnodau hir sy'n bennaf gyfrifol am friwiau pwyso, ac mae gan unrhyw dechnoleg sy'n helpu i rybuddio gofalwyr bod angen symud cleifion botensial mawr fel cynnyrch arloesol a gallai fod o fudd enfawr o ran gofal iechyd.

"Mae'n amlwg bod lle i'r dechnoleg hon mewn marchnadoedd ledled y byd gan fod pob system gofal iechyd yn y byd yn wynebu'r un problemau. Mae'n gyflwr cyffredin iawn sy'n aml yn cael ei esgeuluso."

WELSH WOUND NETWORK

RHWYDWAITH CLWYF CYMRU

Cyfarfod Ilwyddiannus Rhwydwaith Clwyf Cymru

Daeth Rhwydwaith Clwyf Cymru ynghyd mewn cyfarfod am y trydydd tro yn 2010 ar Fehefin 10 yn Aberystwyth. Bu i ddeg ar hugain o gynrychiolwyr fwynhau amrywiaeth eang o gyflwyniadau byr gan sefydliadau masnachol a chan MediWales.

Yn ystod y digwyddiad, lansiodd Synidor larwm newydd i asesu faint y mae cleifion yn symud. Dilynwyd y lansiad hwn gan ddiwrnod i'r wasg yn Abertawe ac o ganlyniad, cafodd y cynnyrch ei drafod yn y papurau newydd lleol ac ar y radio (BBC).

Dyddiadau i'w cofio

Cyfarfodydd nesaf Rhwydwaith Clwyf Cymru

Medi 15 2010 Gwesty'r Metropole, Llandrindod

Rhagfyr 2 2010 Gwesty'r Dragon, Abertawe

Further details of the programme for the June Bydd rhagor o fanylion am y digwyddiadau a gynhelir rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr yn cael eu cyhoeddi mewn cylchlythyrau pellach ac ar wefan Rhwydwaith Clwyf Cymru

Bydd rhagor o fanylion am y digwyddiadau a gynhelir rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr yn cael eu cyhoeddi mewn cylchlythyrau pellach ac ar wefan Rhwydwaith Clwyf Cymru

info@welshwoundnetwork.org

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

ERDF
Ewrop & Chymru Buddsoddi yn eich Dyfodol
Europe & Wales Investing in your Future